# EVANS, GRUFFYDD (1866 - 1930), clerigwr a hynafiaethydd

**Enw:** Gruffydd Evans
**Dyddiad geni:** 1866
**Dyddiad marw:** 1930
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr a hynafiaethydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 18 Medi 1866 ym Mhontardawe, yn fab i John Gruffydd, goruchwyliwr gwaith. Wedi bod am gyfnod byr yn ddisgybl-athro yng Nghlydach (Cwm Tawe), aeth i Goleg Dewi Sant, a graddio yn 1891 (B.D. 1902). Cafodd urddau yn 1892 a 1894; bu'n gurad yn Abertawe, Llansadwrn, a Llandingad (Llanymddyfri). Cafodd ficeriaeth Cydweli yn 1908; yn 1913 symudodd i ficeriaeth Castellnewydd Emlyn, ac yno y bu farw yn ddisyfyd, brynhawn Sul, 31 Mawrth 1930. Cymerai ddiddordeb mawr mewn llên-gwerin, a sgrifennodd lawer ar y pwnc hwn ac eraill i'r cyfnodolion. Ond cofir ef yn well am ei gyfraniadau hynafiaethol sylweddol i gylchgronau'r Cymmrodorion: 'The Story of the Ancient Churches of Llandovery' (*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1911-2), 'Carmarthenshire Gleanings - Kidwelly' (*Cymm.*, xxv), a ' The Story of Newcastle Emlyn and Atpar' (*Cymm.*, xxxii).

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


*Yr Haul*, 1930

*Handbook of Rules of the Calvinistic Methodist or Presbyterian Church of Wales* (Caernarfon 1929), 1929


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733114


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu